COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R IS-BWYLLGOR DEDDF TRWYDDEDU 2003 (A) A GYNHALIWYD SIAMBR Y CYNGOR, SWYDDFEYDD DINESIG, STRYD YR ANGEL, PENYBONT AR OGWR CF31 4WB AR DYDD MERCHER, 29 MAWRTH 2023 14:00

Presennol

Y Cynghorydd M Lewis – Cadeirydd

S J Bletsoe J E Pratt

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Dim

Swyddogion:

Kirsty Evans
Uwch Swyddog Trwyddedu
Mark Galvin Uwch Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau
Stephen Griffiths Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
Michael Pitman Swyddog Cymorth Technegol – Gwasanaethau Democrataidd
Andrea Lee Swyddog Cyfreithiol
Nasir Jarjis Ymgeisydd

Walaiti Rathore Cynrychiolydd Cyfreithiol yr Ymgeisydd

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Datganiadau o fuddiant |
| Y penderfyniad a wnaed | Nid oedd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mawrth 2023 |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cymeradwyaeth Cofnodion |
| Y penderfyniad a wnaed | Cytunwyd yn dilyn cyngor y Swyddog Cyfreithiol, y dylid gohirio cymeradwyo cofnodion Is-bwyllgor Deddf Trwyddedu 2003 A dyddiedig 18 Mawrth 2022, i gyfarfod yn y dyfodol. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mawrth 2023 |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Deddf Trwyddedu 2003 - Cais i Amrywio Trwydded Safle o dan Adran 34 |
| Y penderfyniad a wnaed | Ystyriodd yr Is-bwyllgor Trwyddedu y cais gan Axa Trading Limited i amrywio trwydded safle ar gyfer Domino's yn uned 1 Safle Somerfield, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 1TZ.<br><br>Gofynnodd y cais am y canlynol:<br><br>Disgrifiad o natur yr amrywiad (fel y nodwyd gan ymgeisydd):<br><br>“Addasu’r amod canlynol 1 o dan Atodiad 2, Atal Niwsans Cyhoeddus:<br><br>• Ni fydd y gwasanaeth cownter sydd ar agor i'r cyhoedd ar gael ond tan 01:00 o'r gloch, o ddydd Llun i ddydd Sul. Ar ôl hynny, ni chaniateir mynediad cyhoeddus ar gyfer lluniaeth hwyr y nos trwy'r gwasanaeth cludo .<br><br>I’w ddarllen fel a ganlyn: |

| | |
|---|---|
| | • Bydd y safle'n parhau ar gau i'r cyhoedd rhwng 01:00 a 03:00 ac eithrio i ganiatáu gwasanaeth cludo a chael mynediad i bersonau awdurdodedig.<br><br>Dileu'r amodau canlynol o dan Atodiad 3:<br><br>• Ni fydd cerbydau cludo yn fopedau<br>• Bydd gan bob gyrrwr label yn eu ceir gan nodi "peidiwch â cau drysau ceir yn glep, refio'r injan na chwarae cerddoriaeth uchel".<br>• Ni fydd mwy na 2 gerbyd cludo yn cael eu defnyddio ar ôl 23:00<br><br>Mae holl delerau ac amodau eraill y drwydded safle i barhau heb eu newid; does dim newidiadau eraill.'<br><br>Mae'r safle'n elwa o drwydded safle; BCBCLP565 sy'n awdurdodi'r gweithgareddau trwyddedadwy canlynol yn ystod yr oriau a nodwyd:<br><br>Darparu lluniaeth hwyr y nos<br>Dydd Llun i ddydd Sul: 23:00 awr i 03:00 o'r gloch<br>Rhoddwyd y drwydded yn 2011<br><br>Trafododd yr Is-bwyllgor yr adroddiad gan y Swyddog Trwyddedu. Gwnaeth yr Apelydd drwy ei gynrychiolaeth gyfreithiol sylwadau i'r Pwyllgor i gynnwys y canlynol:-<br><br>1. Mae'r gwrthwynebydd yn y mater hwn wedi gwneud cwynion parhaus am yr ymgeiswyr dros sawl blwyddyn, bob amser i'r Cyngor a byth i'r ymgeisydd. Roedd hyn yn gyfystyr ag aflonyddu. Mae'r Ymgeisydd yn ymchwilio i bob cwyn a wnaed yn erbyn eu busnesau ac maent yn fenter fusnes fawr a phe bai'r cwynion yn cael eu gwneud yn uniongyrchol iddynt, byddent wedi ymchwilio iddynt heb orfod cynnwys y Cyngor.<br>2. Nid yw Adran Iechyd Amgylchedd y Cyngor, sef yr Awdurdod cyfrifol sy'n ymdrin â niwsans sŵn, wedi gwneud unrhyw wrthwynebiadau mewn perthynas â'r cais hwn, felly nid oes ganddynt bryderon am yr un peth.<br>3. Nid yw'r Heddlu wedi cyflwyno unrhyw sylwadau am y cais eto gan ddangos nad oes ganddynt unrhyw bryderon chwaith.<br><br>Canfu'r Is-bwyllgor ar sail tebygolrwydd nad yw'n ymddangos bod problem gyda niwsans sŵn ar y safle, gan nad yw'r Heddlu ac Iechyd Amgylchedd wedi gwneud unrhyw sylwadau ar y mater hwn. Yn ogystal, |

| | |
|---|---|
| | canfu'r Is-bwyllgor, ers yr amser y rhoddwyd y drwydded wreiddiol, fod amgylchiadau wedi newid i'r diwydiant bwyd cyflym, nad yw bwyd yn cael ei archebu dros y ffôn yn unig mwyach. Mae archebion yn cael eu gwneud trwy apiau gyda llawer o wahanol gwmnïau. Canfu'r Is-bwyllgor nad oedd hi'n briodol nac yn ymarferol mynnu bod gan bob gyrrwr labeli yn eu cerbydau sy'n dweud, "peidiwch â chau drysau ceir yn glep, refio'r injan na chwarae cerddoriaeth uchel". Nid oes gan yr Ymgeisydd unrhyw reolaeth dros gerbydau cyflenwi cwmnïau eraill, ac o'r herwydd bellach mae'r amod wedi dod yn anymarferol. Yn yr un modd, o ran yr amod sy'n cyfyngu nifer y cerbydau i ddau ar ôl 23 awr, a'r amod mewn perthynas â mopedau, unwaith eto mae'r Is-bwyllgor hefyd wedi canfod nad yw'r amodau hyn yn ymarferol am yr un rhesymau.<br><br>Yng ngoleuni'r wybodaeth uchod, caniataodd yr Is-bwyllgor y cais. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 29 Mawrth 2023 |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |